Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Bro Siôn Cwilt
# Synod Inn
# Llandysul
# SA44 6JZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Siôn Cwilt ger pentref Y Synod, rhwng Aberaeron ac Aberteifi ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Ceredigion. Agorwyd yr ysgol ddwyieithog hon yn Ionawr 2010 o ganlyniad i gau tair ysgol sef Ysgol Gwenlli, Ysgol Llanllwchaearn ac Ysgol y Castell, Caerwedros. Penodwyd y Pennaeth yn newydd i'w swydd ym mis Mai 2009.

Mae 149 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 29 o blant meithrin (19 yn rhan amser). Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn y tymor sydd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu yn sylweddol ers agor yr ysgol.

Daw 25% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith gyfathrebu. Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac adlewyrchir ystod lawn o allu. Tua 7% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 28% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gydag un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Bro Siôn Cwilt yw £3,184 sy'n cymharu gydag uchafswm o £24,095 ac isafswm o £2,741 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngheredigion. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 53 uchaf o'r 63 ysgol gynradd yng Ngheredigion.

Yr arolygiad hwn yw'r arolygiad cyntaf i'r ysgol dderbyn ers ei hagor o'r newydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- ers y cyfnod byr pan agorwyd yr ysgol mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- bod mwyafrif yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol; a
- bod yna ethos gofalgar Cymreig sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y Pennaeth adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir a rannwyd ac a gytunwyd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ynglŷn â datblygu'r ysgol i'r dyfodol;
- llwyddiant arweinwyr a rheolwyr i gynllunio'n strategol ac o greu cyfundrefnau effeithiol iawn ar gyfer symud yr ysgol ymlaen a chodi safonau o fewn byr amser; a
- bod yr ysgol wedi adnabod trwy ei hunanarfarniad a'i chynllun gwella ysgol agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 gwella cyflawniad bechgyn;

A2 gwella cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol;

A3 gwella ansawdd yr addysgu yn y mannau ble mae'r addysgu yn llai na da;

A4 cysoni ansawdd y cynllunio ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;

A5 cwrdd â gofynion statudol ar gyfer adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen a chynnydd rhagorol yn y blynyddoedd cynnar ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Rhaid trin data un blwyddyn o asesiadau athrawon yn ofalus gan mai ond ers Ionawr 2010 mae'r ysgol wedi agor.

Yn gyffredinol yn 2010, gwnaeth canran uchel o'r disgyblion yn dda iawn ar y lefel disgwyliedig sef lefel 2 yn saith oed ym mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd eu canlyniadau yn uwch na chyfartaledd disgyblion eraill yn ysgolion Cymru, yr awdurdod lleol a'r teulu ysgolion. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Perfformiad da y disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth sydd bennaf gyfrifol am hyn. Nid yw canlyniadau'r disgyblion cystal mewn Cymraeg. Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn saith oed yn darllen ac ysgrifennu yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg, ysgolion yr awdurdod lleol ac ysgolion Cymru.

Nid yw perfformiad y disgyblion yn 11 mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 cystal. Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, o fewn y ddwy iaith ar gyfer 2010 yn sylweddol is na chyfartaledd ysgolion tebyg, ysgolion yr awdurdod lleol ac ysgolion Cymru. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn well na chyfartaledd ysgolion Cymru ac ysgolion yr awdurdod ond ychydig yn is na'r teulu o ysgolion tebyg. O ran canlyniadau yn y ddwy iaith, mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymysg y 50% isaf mewn gwyddoniaeth a'r 50% uchaf mewn mathemateg.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn cyfnod allweddol 1 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn 2010 yn is na'r awdurdod, teulu a Chymru. Mae'r ganran yn is hefyd yng nghyfnod allweddol 2 mewn mathemateg a Saesneg ond yn sylweddol uwch mewn gwyddoniaeth.

Mae'r gwaith cyfredol mewn llyfrau'r disgyblion a thystiolaeth berthnasol arall yn dangos cynnydd da a safonau gwell ers profion Haf 2010.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n hyderus ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol.

Mae lefelau darllen y disgyblion wedi gwella yn y ddwy iaith ac yn nawr yn addas i'w hoedran a'u gallu. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion drwy'r ysgol yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Mae datblygiad ysgrifennu ar

draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig. Er hyn mae cymysgedd iaith yn ymddangos yng ngwaith Cymraeg lleiafrif o'r disgyblion ar adegau.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng canlyniadau merched a bechgyn yn 2010, gyda'r merched yn perfformio'n well ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol ym mhob pwnc.

Mae disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol ac mae'r Cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta'n iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd, gyda nifer helaeth yn manteisio ar y clybiau cadw'n heini diwedd dydd.

Mae lefel presenoldeb y dysgwyr ar gyfartaledd ers agor yr ysgol newydd tua 94%, sy'n well na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol. Hefyd mae swyddogion o blith y disgyblion yn cynorthwyo eraill i gyd-chwarae ac yn cynnig cymorth i gyfoedion yn ôl yr angen.

Gall bron pob un o'r disgyblion weithio'n annibynnol o fewn y gwersi. Maent yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddewis a chynllunio themâu am y tymor. Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau ar sut i wneud eu gwaith a chyflwyno eu canfyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn cadw ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser. Mae llawer ohonynt yn datblygu yn eu dealltwriaeth o'r targedau i weithio tuag atynt ac o'r meini prawf llwyddiant a osodir ar gyfer gwahanol dasgau.

Mae dylanwad llais y dysgwyr ar fywyd yr ysgol yn gynyddol ddatblygu trwy weithrediad y cyngor ysgol. Gwnaed penderfyniadau allweddol fel sicrhau amrywiaeth i fwydlen prydau canol dydd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi mynychu un cyfarfod llywodraethol hyd yn hyn i drafod eu syniadau a dyheadau.

Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cydweithio yn dda gyda'i gilydd, gan gynnig cymorth i'r naill a'r llall.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o gynaliadwyedd ac maent yn deall peth o'r dechnoleg a'r manteision amgylcheddol sydd yn deillio o adeiladwaith yr ysgol newydd. Trwy ddatblygu partneriaethau rhyngwladol niferus daw y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gynyddol ymwybodol o faterion dinasyddiaeth fyd-eang.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chyfoethog iawn o brofiadau dysgu, priodol, llwyddiannus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r gweithgareddau addysgol a'r cyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r mapio trwyadl sydd o fewn y cynllunio yn gyfrwng i sicrhau datblygiad effeithiol iawn yn y medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn, ynghyd â'r cynllunio ehangach, yn sicrhau datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu ar ei orau. Mae hyn yn elfen ragorol ac yn un o brif gryfderau'r ysgol hon ac yn cael ei ddefnyddio gan y sir fel ffordd ymlaen ar gyfer ysgolion eraill.

Mae rhagoriaeth hefyd yn y modd y mae'r ysgol yn datblygu Cymreictod y disgyblion mewn ffordd naturiol a chynhwysol sy'n meithrin parch at eu hardal a'i thraddodiadau. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei integreiddio'n llwyddiannus ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion chwarae rhan amlwg a llwyddiannus mewn digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol yn lleol, sirol a chenedlaethol. Llwyddwyd i ennill clod ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni mewn dawnsio gwerin.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Manteisir i'r eithaf ar natur gynaliadwyol yr adeilad a'r safle ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o'r arferion gorau ar gyfer gwarchod y ddaear. O ganlyniad llwyddodd yr ysgol i ennill achrediad arian Eco Ysgolion mewn byr amser ac mae'r plant yn ymwybodol iawn o werth ailgylchu a gwarchod yr amgylchedd. Mae'r disgyblion yn ymhél â chynlluniau megis Masnach Deg, ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach. Mae'r ysgol yn datblygu partneriaethau effeithiol rhyngwladol ar draws Ewrop a thu hwnt.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda ond mae amrywiaeth rhwng dosbarthiadau. Ymysg yr elfennau rhagorol a da a welwyd yn y blynyddoedd cynnar ac ar frig yr ysgol defnyddir trefn gynhwysfawr yr ysgol o gynllunio yn effeithiol iawn i sicrhau dysgu ar ei orau. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae'r athrawon yn cwestiynu yn bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen.

Ble mae'r addysgu ar ei orau, darperir cyfleoedd i'r disgyblion arwain a chyfarwyddo'r addysgu sy'n arwain at addysgu sy'n llwyddo i adeiladu ar gymhelliant a brwdfrydedd y dysgwyr. Mae amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn gyson. Mae hyn yn meithrin yn effeithiol gallu'r disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Lle nad yw'r addysgu cystal nid yw amseriad y gwersi yn ddigon cyflym a'r gweithgareddau'n ddigon heriol a gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion. Nid yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o drefn gynllunio'r ysgol ac o ddefnyddio'r dulliau addysgu diweddaraf a fabwysiadwyd gan yr ysgol.

Mae rheolaeth dosbarth yn gyson drwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol yn eu cefnogaeth i'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r defnydd a wneir yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau o asesu ar gyfer dysgu. Mae'r athrawon yn rhoi adborth cyson i'r disgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Lle gwelwyd yr asesu ar ei orau mae'r marcio a'r sylwadau'n fanwl ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu da wedi eu hintegreiddio i'r gwersi ac yn datblygu'n rhan o ethos yr ysgol. Mae gan yr holl ddisgyblion eu targedau personol i weithio tuag atynt.

Gweithredir systemau tracio cynnydd effeithiol a chynhwysfawr trwy ddefnyddio amrediad o brofion safonol i fesur cynnydd a gosod targedau priodol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei gymedroli'n fewnol ar draws yr ysgol a chydag ysgolion y clwstwr, gan gynnwys yr ysgolion cyfun y dalgylch

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac yn rhoi darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion gan amlinellu'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ysgol ofalgar iawn yw hon sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae'r system 'Cyfeillion Cŵl', yn atgyfnerthu'r ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal sydd yn elfen gref o fywyd yr ysgol. Ffurfiwyd clwb fel rhan o gynllunio'r ysgol i hybu hyder ymhlith disgyblion swil ac ansicr.

Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i gynnig cynhaliaeth fugeiliol o safon uchel i'r disgyblion. Gwneir defnydd priodol o wasanaethau arbenigol fel rhan y nyrs ysgol yn y sesiynau "Tyfu Fyny" ac i gynnal iechyd emosiynol a phersonol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae yna gynlluniau penodol ar lefel dosbarthiadau unigol ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant penodol yn flynyddol fel rhan o'r trefniadau hyn. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn deall eu hawl i fod yn ddiogel. Maent yn gwybod sut i ymateb os bydd unrhyw achosion o fwlian neu anghyfiawnder.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol gwahanol ddisgyblion trwy arsylwi cyson, cyd-drafod â rhieni a chynnal asesiadau ffurfiol ac anffurfiol. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn tracio cynnydd disgyblion, ac yn cynllunio gwaith perthnasol i ymateb i anghenion y disgyblion. Anghyson yw gweithrediad y gweithdrefnau hyn ar draws yr ysgol. Nid yw'r rhaglenni gwaith unigol bob amser yn dylanwadu'n ddigonol ar flaen gynllunio.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un cartrefol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd ac yn parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn hybu cymuned gynhwysol ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Gwneir defnydd

arbennig o'r adeilad yn fewnol ac yn allanol i greu gofod dysgu symbylus ac apelgar. Addysgir y disgyblion i barchu ac i ofalu am eu hamgylchedd.

Mae'r adeilad o ansawdd rhagorol. Cedwir pob rhan o'r ysgol yn lân a thaclus. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei arddangos yn gelfydd o fewn arddangosfeydd symbylus a lliwgar ar furiau'r adeilad. Gwneir cryn ddefnydd cymunedol o'r adeilad. Yn gyffredinol, mae adnoddau da i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad rhagorol i'r ysgol ac mae cefnogaeth arbennig y dirprwy fel rhan o'r uwch dim rheoli yn ddylanwad pwysig iawn ar lwyddiant yr ysgol. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau a prosesau rheolaethol effeithiol a disgwyliadau uchel ymysg athrawon a disgyblion sy'n dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol. Rhoir cyfeiriad strategol glir i'r ysgol wrth ymateb i briodoleddau cenedlaethol a lleol fel er, enghraifft y Cyfnod Sylfaen, ble mae ansawdd y dysgu a'r addysgu o ansawdd uchel yn nosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol yn enwedig wrth ennill cyllideb briodol a gweithdrefnau ariannol wrth sefydlu'r ysgol. Mae'n derbyn gwybodaeth ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac wedi dechrau ymweld â dosbarthiadau fel rhan o'u rôl yn monitro safonau. Mae gan yr aelodau ymwybyddiaeth dda o berfformiad cyfredol yr ysgol ac maent yn herio a chwestiynu perfformiad yr ysgol yn gydwybodol.

Nid yw adroddiad blynyddol statudol y llywodraethwyr i'r rhieni yn cyd-fynd yn llwyr â'r gofynion gan nad oes cyfeiriad at dargedau ar gyfer y dair blynedd nesaf.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau da ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r athrawon a'r llywodraethwyr wedi bod yn rhan o'r broses o hunanwerthuso, ac mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da.

Defnyddir tystiolaeth eang o ddata ar gyflawniad disgyblion, adroddiadau monitro pynciau, adroddiadau'r awdurdod, a holiaduron rhieni a disgyblion i lunio'r adroddiad. Mae'r cynllunio ar gyfer cyflwyno a gwerthuso'r medrau ar draws y cwricwlwm hefyd yn dda iawn.

Defnyddir yr adroddiad hunanwerthuso i briodoli blaenoriaethau ac i gyfrannu at lunio cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cwmpasu holl weithgaredd yr ysgol ac yn ddogfen gynhwysfawr ac o ansawdd uchel.

Mae cyfarfodydd staff yn effeithiol wrth flaengynllunio ar gyfer codi safonau. Mae nifer o staff wedi ymweld ag ysgolion mewn gwledydd Ewropeaidd ac mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang.

Mae'r sustem rheoli perfformiad staff yn ei le ac yn sylfaen dda i wella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol.

Ers Ionawr 2010 mae nifer o ymwelwyr o fyd addysg wedi ymweld â'r ysgol i weld yr adeilad newydd ac i weld arfer dda o ran dysgu, addysgu ac adnoddau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae athrawon yn cydweithio'n dda o fewn cymuned broffesiynol gynhaliol gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol, i hybu gwaith llafar disgyblion yn y Gymraeg. Mae nifer o'r athrawon wedi bod yn flaengar yn rhannu eu harbenigedd gydag ysgolion eraill o fewn y sir ac yn genedlaethol, er enghraifft gyda phartneriaid lleol, a chenedlaethol, i hybu gwaith llafar disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyd-weithio yn dda ar gynllun cymedroli safonau cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgolion cyfun, ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol.

Ceir cysylltiadau cryf gyda rhieni. Rhennir gwybodaeth yn gyson ynglŷn â gweithgareddau'r ysgol a gwahoddir rhieni i nosweithiau "rhannu gwybodaeth" er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o addysg eu plant. Mae hwn yn enghraifft o arfer dda.

Ceir partneriaeth gref gyda'r sefydliadau lleol ac mae'r ysgol yn datblygu'n dda i fod yn ganolbwynt gweithgarwch cymunedol. Mae'r cysylltiadau clos sy'n bodoli gyda'r gymuned leol, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer priodol o athrawon yn yr ysgol gyda'r cymwysterau addas ar gyfer eu swyddi. Rhoir cefnogaeth effeithiol i'r athrawon gan gymorthyddion dosbarth sydd hefyd yn cefnogi'r disgyblion yn dda wrth eu gwaith.

Mae amrediad da iawn o adnoddau newydd yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli yn dda. Mae ansawdd yr adeilad yn rhagorol ac yn berthnasol iawn i addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol o fewn y cynllun datblygu ysgol. Gan fod y disgyblion yn ddiweddar yn dangos cynnydd da ac yn cyrraedd safonau cyffredinol dda mewn byr amser ers ymuno a'r ysgol newydd, a bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, mae'r ysgol at ei gilydd yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth 25 o ymatebion i law. O fewn bob un o'r holiaduron a dderbyniwyd gan y rhieni maent yn datgan eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae'r rhieni oll o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n effeithiol ac yn annog y plant i weithio'n galed. Maent yn hapus â'r cynnydd a wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt. Credant hefyd fod yr addysgu yn dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 69 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron bob un o'r farn fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach ac am yr angen i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Oddeutu 60% yn unig o ddisgyblion ymatebodd drwy'r holiadur fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio. Nid dyma ganfyddiad y tîm arolygu o fod yn arsylwi o fewn dosbarthiadau ac o ganlyniad i holi dysgwyr wyneb yn wyneb.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Richard Hughes | Arolygydd Lleyg |
| Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Hopkins | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |